# ADRODDIAD CRYNODOL:

## *Cynllun Peilot Canolfannau Iaith Gwynedd.*

## Cefndir

Ar 2 Ebrill 2019 penderfynodd Cabinet Cyngor Gwynedd weithredu cynllun peilot mewn un Canolfan Iaith o strwythur staffio o athro a chymhorthydd er mwyn canfod a ydyw yn cael effaith ar ansawdd yr addysg a chyrhaeddiad y plant.

## Briff yr ymchwil

Lluniwyd briff ar gyfer yr ymchwil ac fe'i cyflwynwyd gerbron y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi ar 10 Hydref 2019 am sylwadau.

Roedd y briff yn nodi'r gofynion canlynol, gyda phob Canolfan Iaith yn rhan o'r ymchwil fyddai'n sail i fesur effaith y cynllun peilot yng Nghanolfan Iaith Maesincla.

1.1. **a) Strwythur Dyddiol y Canolfannau Iaith**

Bydd gofyn i'r tîm ymchwil ystyried trefniadau dydd i ddydd y dysgu a'r addysgu ymhob Canolfan Iaith, sef ar ba gyfnodau yn ystod y diwrnod gwaith y mae pob Canolfan yn cynnal:

- un grŵp dysgu gyda 2 athro (uchafswm ratio 2:16)
- un grwp dysgu gydag athro a chymhorthydd (uchafswm 2:16)
- un grŵp dysgu gydag 1 athro (uchafswm ratio 1:16)
- un grŵp dysgu gyda chymhorthydd (uchafswm ratio 1:16)
- dau grŵp dysgu (uchafswm ratio 1:8)
- arall

1.2 Mae niferoedd y disgyblion sydd yn mynychu'r Canolfannau Iaith yn gallu amrywio hyd at uchafswm o 16 disgybl. Golyga hyn y gall niferoedd y disgyblion yn y grwpiau dysgu ymhob Canolfan amrywio ar sail cyfanswm niferoedd y plant, a gofynnir i'r tîm ymchwil roddi ystyriaeth briodol i hynny fel rhan o'r ymchwil.

1.3 **b) Gwybodaeth Gefndirol**

Yn ogystal â'r wybodaeth gyffredinol a gesglir am bob disgybl, bydd y tîm ymchwil hefyd yn ystyried gwybodaeth gefndirol ychwanegol am y plant a'u teuluoedd sydd wedi symud i Wynedd ynghyd â'u cysylltiad a'u profiadau blaenorol neu bresennol gyda'r Gymraeg cyn mynychu'r Ganolfan Iaith. Bydd y wybodaeth yma'n cynnwys:

- Pryd y bu iddynt symud i Wynedd?
- A ydynt wedi byw yng Ngwynedd yn flaenorol?
- Prif resymau dros symud i Wynedd?
- A oes unrhyw aelodau o'r teulu neu'r teulu estynedig yn gallu siarad Cymraeg?
- A ydynt yn mynychu gweithgareddau cymunedol cyfrwng Cymraeg?
- A ydynt yn credu ei bod yn fanteisiol dysgu'r Gymraeg?
- A oes gan y plentyn brofiad o'r iaith Gymraeg cyn symud i Wynedd?
- A oes gan y plentyn gyswllt gyda rhywun y tu allan i'r ysgol sydd yn gallu siarad Cymraeg?
- Beth mae'r plentyn yn obeithio ei gyflawni o ddysgu'r iaith Gymraeg?

1.4 Bydd y wybodaeth yma'n fodd o sefydlu gwaelodlin o gefndir y plant, oedran, blwydd-yn ysgol, eu hagweddau ynghyd â'u cysylltiad blaenorol efo'r Gymraeg, fydd yn sail i'r ymchwil ar draws y Canolfannau Iaith.

1.5 **c) Ymweliadau i'r Canolfannau Iaith**
Bydd y tîm ymchwil yn cynnal ymweliadau i'r Canolfannau Iaith er mwyn ystyried, gweld a mesur y cynnydd ieithyddol a wneir gan y plant yn ystod eu cyfnod mewn Canolfan. Bydd y tîm ymchwil yn mynychu'r Canolfannau Iaith ar dri chyfnod penodol yn ystod y cwrs i allu mesur cynnydd ieithyddol y plant, sef oddeutu:

- Cynradd: Wythnos 4, 8 a 12
- Uwchradd: Wythnos 3, 6, 8

1.6 Bydd y Canolfannau Iaith yn llunio meini prawf ar sail cynnwys y cwrs o'r cynnydd a'r patrymau iaith y dylai'r plant fod wedi eu meistroli erbyn y cyfnodau allweddol cytunedig hynny yn ystod y cwrs.

1.7 Bydd gofyn i'r tîm ymchwil ddod i farn a yw'r plant wedi cyflawni'r cynnydd disgwyl-iedig ai peidio, a hynny mewn trafodaeth gydag athrawon a chymorthyddion y Canol-fannau Iaith er sicrhau cyd-destun llawn i'r farn.

1.8 Yn unol â Chynllun Busnes y Canolfannau Iaith, bydd y tîm ymchwil yn mesur i ba raddau mae'r Canolfannau Iaith yn cyflawni eu pwrpas drwy gyfrwng y mesurydd canlynol:

***Nifer/ % plant sydd yn cyrraedd Lefel 2 ar ddiwedd eu cyfnod mewn Canolfan Iaith*** gan ystyried hynny, ochr yn ochr â:

- Strwythur dyddiol y Canolfannau Iaith
- Gwybodaeth gefndirol a phroffil y plant
- Ymweliadau i'r Canolfannau Iaith

## 2. Y Tîm Ymchwil

2.1. Penodwyd aelodau'r tîm ymchwil ar sail eu profiadau a'u harbenigedd ym maes addysg drochi ac addysg ail-iaith .Aelodau'r tîm ymchwil Dr Diane Jones, Swyddog Addysg, Sian Eirug, Cydlynydd Strategaeth Iaith Uwchradd, a Nia Williams, Cyn-bennaeth Ysgol Morfa Nefyn. Cafwyd hefyd fewnbwn proffesiynol ac anffurfiol gan Dr Enlli Thomas, Ysgol Addysg, Prifysgol Bangor.

## Dr Diane Jones

Swyddog Addysg

Mae Diane yn Swyddog Addysg gydag Awdurdod Gwynedd ers pum mlynedd. Fel aelod o Dîm Rheoli'r Adran Addysg mae'n cyfrannu at, ac yn arwain ar, gynlluniau gwella addysg, gynlluniau cyfalaf mewn perthynas â'r stâd ysgolion a datblygiadau ym maes Addysg, yn cyd arwain ar ymyriaethau a chynlluniau datblygu ac yn cynnig arweiniad a chefnogaeth i arweinwyr ysgolion mewn amrywiaeth o feysydd. Mae ei chefndir ym maes datblygu cymunedol a diwylliannol, a dysgu Cymraeg i ddysgwyr o amrywiol hyfedredd yn y Sector Uwchradd a'r Sector Addysg Uwch. Bu iddi ennill doethuriaeth mewn Iaith a Llenyddiaeth Gymraeg am ei hymchwil ym maes y ddrama yng Nghymru.

## Sian Eirug

Cydlynydd Strategaeth Iaith Uwchradd

Cyn ymgymryd a'i rôl bresennol fel Cydlynydd Strategaeth Iaith Uwchradd o fewn yr Awdurdod, bu Sian Eirug yn Bennaeth Adran Y Gymraeg mewn ysgol Uwchradd yng Ngheredigion, ac yna'n Gyfarwyddwr y Cwrs TAR ym Mhrifysgol Aberystwyth, am dros ddeng mlynedd, gyda chyfrifoldeb am Y Gymraeg fel pwnc. Bu'n dysgu'r Gymraeg fel ail iaith i athrawon dan hyfforddiant, a chyfrannu'n gyson i ddarpariaeth y Cynllun Gwella Cyfrwng Cymraeg, gan arbenigo mewn addysgu dwyieithog.

Bu'n cyfrannu'n ogystal at gwrs Meistr mewn Ymarfer Addysgol, Prifysgol Caerdydd, ac yn Arolygydd Cymheiriad gyda Estyn. Mae ganddi brofiadau eang o weithio fel safonwr i CBAC.

## Nia Williams

Cyn-bennaeth Ysgol Morfa Nefyn

Bu Nia yn Bennaeth Ysgol Morfa Nefyn am 10 o flynyddoedd cyn ymddeol yn 2018. O dan ei harweiniad bu i'r ysgol dderbyn safon Rhagoriaeth gan Estyn ar ddau achlysur. I grynhoi gyrfa lwyddiannus ym myd Addysg bu i Nia dderbyn gwobr 'Teilyngwr' yng ngwobrau Addysgu Proffesiynol Cymru yn 2017 am ei chyfraniad i ddatblygu'r Gymraeg i Safon Uchel.

Yn rhan o'i rhôl fel Pennaeth bu wrthi'n ddyfal yn creu adnoddau dysgu, arwain a chynnal cyrsiau ar godi safonau yn y Gymraeg yn enwedig mewn gwaith llafar ar draws Cymru i amrywiaeth o sefydliadau fel ysgolion, CBAC a chynadleddau amrywiol.
Yn ddiweddar wedyn mae Nia wedi bod yn Anogwr Llafaredd Cyfnod Sylfaen fel rhan o brosiect 'Miliwn o Siaradwyr 2050' Llywodraeth Cymru.

## 3. Yr Ymchwil

3.1. Cynhaliwyd yr ymchwil i'r Canolfannau Iaith rhwng mis Hydref 2019 a mis Mawrth 2020. Fodd bynnag, bu i amodau di-gynsail pandemig Covid-19 amharu ar yr amserlen a gynlluniwyd yn wreiddiol ar gyfer cwblhau'r gwaith.

3.2. Isod cyflwynir grynodeb gan y tîm ymchwil o'u canfyddiadau ar sail yr ymweliadau a gynhaliwyd ganddynt i bob Canolfan Iaith yn ystod Tymor yr Hydref 2019 a rhan o Dymor y Gwanwyn 2020.

## 4. Canfyddiadau'r Ymchwil

### 4.1. Arferion da:

Profiad braf i'r Tîm Ymchwil oedd bod yn dyst i'r ffaith fod y disgyblion a oedd yn bresennol yn y Canolfannau yn ystod ein hymweliadau yn cael pleser o fod yno. Rhaid canmol y cyd-weithio ymysg aelodau staff y Canolfannau unigol i sicrhau profiadau cadarnhaol i'r disgyblion oedd yn eu mynychu, a braf oedd tystio i werthfawrogiad Penaethiaid yr ysgolion o'r gwaith oedd yn digwydd yno i arfogi'r disgyblion gyda sgiliau iaith Gymraeg. Mae'n amlwg fod y disgyblion sydd yn mynychu yn gwneud cynnydd yn eu gallu i siarad a defnyddio'r iaith Gymraeg – does dim amheuaeth am hynny. Fodd bynnag, mae'r amrywiaeth sydd yn bodoli o fewn y cynnydd hwnnw yn rhywbeth y dylid ei ystyried ymhellach.

**4.2. Strwythur y Gwasanaeth:**

Ceir pedair Canolfan Iaith Cynradd ac un Ganolfan Uwchradd. Er y gwelwyd tystiolaeth o ychydig o gydweithio yn ddiweddar ar draws y Canolfannau, fe weithredant fel canolfannau unigol. O ganlyniad, teimlir fod anghysondeb yn y ddarpariaeth a ddarperir i ddisgyblion y sir, a gwelwyd enghreifftiau o ddyblygu swyddogaethau, ac fe ellid rheoli hynny'n dynnach. Credir y byddai hynny'n dylanwadu'n gadarnhaol ar effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd y ddarpariaeth. Teimlwyd nad oedd staff y Canolfannau yn cael eu cefnogi'n ddigonol ar faterion addysgu a dysgu e.e mynediad at gefnogaeth Swyddogion Addysg, athrawon mewn Cymunedau Dysgu Proffesiynol a Swyddogion Gwe.

**4.3. Trefn Mynediad:**

Roedd amrywiaeth yn hyd y cyfnodau oedd yn cael eu treulio yn y Canolfannau gan y disgyblion oedd yn eu mynychu. Roedd disgyblion yn mynychu'r Canolfannau Cynradd am ddeuddeng wythnos, a'r Ganolfan Uwchradd am wyth wythnos. Nid oedd y drefn o dderbyn disgyblion i'r Canolfannau cynradd yn glir, ac fe welwyd fod y drefn yr adroddwyd amdani yn y Canolfannau unigol yn amrywio'n fawr. Roedd rhai yno am eu bod yn hwyrddyfodiaid pur, eraill yno er mwyn derbyn ychydig o hwb gyda'u sgiliau darllen ac ysgrifennu, ond yn gwbl rhugl eu hiaith lafar. Roedd eraill mewn Canolfan arall eisoes wedi bod yn y Ganolfan yn y flwyddyn addysgol flaenorol, ond wedi mynd yn ôl i'r ysgol bryd hynny a chael cyfle i ddod yn ôl. Nododd un Ganolfan fod rhai plant yn mynd yno gan eu bod "yn gyffredinol wan" yn addysgol. Nid oedd trefn bendant o osod gwaelodlin ar gyfer dysgwyr yn unigol yn cael ei harddel er mwyn gallu mesur cynnydd yn ei erbyn. Nid oedd unrhyw broses gyson ar draws y Canolfannau Cynradd o wirio ceisiadau ysgolion i ddysgwyr gael eu mynychu. Teimlwyd wrth siarad gyda staff yr ysgolion oedd yn anfon disgyblion i'r Canolfannau bod diffyg dealltwriaeth amlwg o'r drefn gyfeirio ac wrth benderfynu pwy oedd yn gymwys i fynychu ai peidio. O ganlyniad i'r diffyg eglurder yn y drefn o dderbyn disgyblion i'r Ganolfan, mae'n anodd dod i farn gadarn wrth fesur cynnydd y disgyblion.

O ganlyniad i'r amrywiaeth yn yr amodau derbyn disgyblion i'r Canolfannau, amlyga hyn yr angen am ddarpariaeth sydd yn fwy gwahaniaethol ac sy'n cynnig her briodol i allu ieithyddol ac addysgol y mynychwyr.

## 4.4. Strwythur Staffio:

Nid oedd rhesymeg glir na chysondeb i strwythur staffio'r Canolfannau Iaith. Ni cheir unrhyw enghraifft arall o fewn ysgolion y Sir o ddosbarthiadau'n cael eu harwain gan ddau athro/athrawes, ond yn hytrach, athro/athrawes a chymhorthydd. Mewn dwy o'r Canolfannau Cynradd, roedd Arweinydd ac Athrawes. Mewn Canolfan arall, un athrawes a chymhorthydd (sef y cynllun peilot), ac yn y llall, Arweinydd a chymhorthydd. Yn y Ganolfan Uwchradd, roedd arweinydd ac athrawes. Gwelwyd arferion da iawn o gyd-weithio effeithiol ym mhob canolfan, ac ni theimlwyd o gwbl fod unrhyw ddisgybl o dan anfantais o ganlyniad i strwythur staffio amrywiol y Canolfannau Iaith. Gwelwyd rhai enghreifftiau rhagorol o gydweithio rhwng athrawes a chymhorthydd mewn un ganolfan gynradd. Ni welwyd unrhyw wahaniaethau arwyddocaol o ran y defnydd o gymorthyddion a/neu athrawon ar draws y Canolfannau, gyda rhai enghreifftiau o athrawon a chymorthyddion yn cymryd grwpiau dysgu ar adegau, neu'n cefnogi'r dysgu o dan arweiniad athro neu arweinydd arall. Nid oedd dull yr athrawon o grwpio ac addysgu disgyblion yn ystod y dydd yn glir. Roedd aml i enghraifft mewn Canolfannau dwy athrawes neu arweinydd ac athrawes o un aelod o staff yn cymryd y grwpiau i gyd am gyfnodau estynedig yn ystod y dydd. Teimlwyd fod cyfleoedd yn cael eu colli i wahaniaethu ar sail gallu ieithyddol er mwyn cynnig rhagor o gefnogaeth neu her fel bo'n briodol.



## 4.5. Strwythur yr addysgu ac ansawdd y dysgu:

Er bod *Cynllun y Llan* yn gynllun strwythuredig ar gyfer y Canolfannau cynradd, roedd amrywiaeth mawr yn y dull yr oedd yn cael ei ddefnyddio a'i gyflwyno o un safle i'r llall. Roedd amrywiaeth yn yr hyn oedd yn cael ei gyflwyno ar lafar – ambell enghraifft o dreigladau'n cael eu cyflwyno'n naturiol ac enghraifft o hynny ddim yn cael ei gyflwyno o gwbl mewn canolfan arall. Y teimlad cyffredinol, o siarad gyda staff y Canolfannau, ac o arsylwi ar y dysgu, oedd fod y Cynllun wedi dyddio, a theimlwyd fod seilio'r holl raglen addysgu ar bentref dychmygol fel sydd yn y Cynllun, yn amherthnasol i gylch profiad y disgyblion oedd yn mynychu'r Canolfannau Iaith. Yn bendant, roedd technegau trochi effeithiol yn cael eu hymarfer ar adegau, ond teimlir bod gwir angen am ddiweddaru'r cyd-destun y cyflwynir yr iaith ynddo, heb os nac onibai. Mae Cynllun tebyg, sef cynllun *Cefyn Cŵl* yn bodoli yn y Ganolfan Uwchradd, ond fe deilwrir peth darpariaeth bynciol yn ogystal yno, er mwyn rhoi elfennau o'r Cwricwlwm Cymreig i'r dysgwyr sydd yn mynychu, ble'r edrychir ar themâu megis y *Welsh Not*, hanes y gwledydd Celtaidd, Hanes yr Iaith ac ati. Teimlwyd bod hyn yn arfer dda y dylid ei efelychu yn y Canolfannau Cynradd. Fodd bynnag gyda'r disgyblion Uwchradd yn benodol, tybed a yw eu datblygiad yn eu pynciau craidd yn dioddef o ganlyniad i fethu cyfnod estynedig o fewnbwn addysg prif lif yn eu hysgolion?
Nod y Canolfannau Iaith yw sicrhau bod y disgyblion sydd yn eu mynychu yn cyrraedd Lefel 2 (Llafaredd) ar ddiwedd eu cyfnod yno er mwyn ymdopi yn ôl yn eu hysgolion gyda'r ddarpariaeth ddwyieithog a ddarperir yno. Fe welwyd arferion da yng nghyd-destun y Cynllun Peilot, ond gan nad oes trefn gyson yn cael ei defnyddio fel tystiolaeth i osod gwaelodlin ac i fesur cynnydd, mae'n anodd dod i farn a yw hyn yn cael ei gyflawni gyda phob disgybl. Yn ogystal, gan nad yw'r ddarpariaeth yn gwahaniaethu'n ddigonol i anghenion gwahanol ddisgyblion unigol, nid oes modd gwybod i sicrwydd faint o'r disgyblion hynny oedd yn hwyrddyfodiaid pur oedd yn cyflawni disgrifyddion Lefel 2 (Llafaredd) yn y Gymraeg. Cwestiynir, felly, ddibynadwyedd y data hwn. Fodd bynnag, gellir nodi gyda sicrwydd bod y dysgwyr i gyd yn gwneud cynnydd ac yn llwyddo i gaffael rhywfaint ar y Gymraeg, ond bod amrywiaeth amlwg yn y cynnydd hwnnw ar gyfer disgyblion unigol ym mhob Canolfan.

## 4.6. Ôl-ofal:

Ni theimlwyd y cafwyd darlun cwbl glir o'r ddarpariaeth ôl-ofal gan na fu'n bosib ym weld yn y trydydd tymor o ganlyniad i'r pandemig. Gwelwyd nifer fach o ddysgwyr oedd wedi mynychu'r Ganolfan yn ystod tymor yr Hydref, a gellid gweld fod dilyn y ddarpariaeth addysgol yn y dosbarth yn profi'n heriol i ambell un, yn ogystal â'r gallu i gymysgu'n naturiol gyda'u cyfoedion. O siarad gyda staff y Canolfannau, darlun annelwig a gafwyd o'r drefn o gynnig ôl-ofal yn dilyn dychweliad y disgyblion i'r ysgolion. Nid oedd y Canolfannau Iaith Cynradd (yn sgil penderfyniad Cabinet 2 Ebrill 2019) eto wedi gweithredu'r drefn newydd o ddarparu ôl-ofal i'r dysgwyr yn y trydydd tymor yn uniongyrchol eu hunain, serch hynny, hyd at 20 Mawrth 2020, doedd dim

cynllun amlwg mewn lle i ymateb i'r gofyn newydd hwn. Teimlir y gallai'r ysgolion cynradd fanteisio ymhellach ar arbenigedd staff y Canolfannau Iaith gan rannu arferion da a rhoi cynhaliaeth i grwpiau ehangach o blant allai fod yn elwa o'r hwb ychwanegol i'w sgiliau llafar. Byddai hynny yn fodd i gryfhau'r cydweithio mewn partneriaeth gyda'r ysgolion cynradd a'r uwchradd ymhellach, ac yn atgyfnerthu'r ymdeimlad o berchnogaeth yn y daith o gyflwyno'r iaith i'r disgyblion. Byddai datblygu'r ôl-ofal presennol i gynnig cefnogaeth a ffurfio Grwpiau Ymyrraeth posib yn yr ysgolion cynradd yn cael effaith gadarnhaol ar gyraeddiadau'r disgyblion ac yn fodd iddynt weld perthnasedd yr iaith i'w datblygiad addysgol ehangach, yn hytrach na chyfyngu hynny'n unig i ffiniau pentref dychmygol Llanfairgogoch (Cynllun y Llan).

## 5. Meysydd sydd angen sylw pellach:

Argymhellir y dylid edrych yn ofalus ar y canlynol er mwyn cryfhau'r ddarpariaeth bresennol:

1. Polisi a threfn mynediad clir i gael ei sefydlu a'i fonitro'n ofalus.
2. Strwythur presennol y ddarpariaeth: a oes ffyrdd amgenach i gynnig y ddarpariaeth fydd yn galluogi'r disgyblion allu setlo'n eu hysgolion ochr yn ochr â mynychu'r Canolfannau Iaith?
3. Cysoni gweinyddiaeth ddyddiol y Canolfannau e.e dyddiau HMS yr ysgolion y lleolir y Canolfannau ynddynt, trefn ac amserau'r tacsis sy'n cludo'r disgyblion.
4. Cysoni'r drefn o adrodd ar gynnydd y dysgwyr.
5. Rhannu arferion da ar draws y Canolfannau ac ysgolion.
6. Cryfhau'r berthynas gyda'r ysgolion cynradd i alluogi cynnydd pellach o ran cefnogaeth i ddatblygiad iaith.
7. Mabwysiadu dull o gynllunio gwaith sy'n nodi deilliannau clir ac amserol i hwyluso'r monitro a wneir o gynnydd.
8. Cynllun ôl-ofal clir.
9. Cryfhau dulliau Sicrhau Ansawdd wrth anelu at ragoriaeth
10. Ystyried ymhellach strwythur amserlennu'r tymhorau presennol i sicrhau darpariaeth gynhwysfawr, sy'n ateb anghenion y dysgwyr ac yn rhoi gwerth am arian.

